COAL
ACTION
NETWORK

# Maniffesto Cymru 2026

## Adferiad, Arloesi, a Chyfiawnder

### Blaenoriaethau ar gyfer Cymru fwy beiddgar a gobeithiol:

1. Rhoi diwedd llwyr ar bob math o echdynnu glo o'r newydd
2. Sicrhau gwelliant o ran diogelwch a chynefinoedd mewn safleoedd glo brig
3. Cefnogi rhwydweithiau gwresogi dŵr mwynglawdd i ddarparu cartrefi cynnes glân a fforddiadwy
4. Meithrin arloesi a diwydiant gwyrdd sy'n arwain y byd
5. Atal allyriadau methan o fwyngloddiau segur

# Pam mae'r etholiad yma'n bwysig

Mae Cymru ar drobwynt tyngedfennol. Am dros ganrif, roedd glo'n siapio ein tirwedd, ein cymunedau, a'n gwleidyddiaeth. Heddiw, mae gan Gymru gyfle i siapio rhywbeth gwahanol iawn: dyfodol sydd wedi'i ddiffinio nid gan echdynnu, ond gan adferiad, arloesi a chyfiawnder. Bydd y Senedd nesaf yn penderfynu a fydd Cymru'n parhau gyda'r pontio i ffwrdd o lo am byth ac a fydd y cymunedau a gariodd bwysau'r diwydiant, o'r diwedd, yn cael y buddsoddiad, yr adferiad a'r diogelwch hirdymor maen nhw'n eu haeddu.

Ers 2008, mae'r Rhwydwaith Gweithredu Glo wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â chymunedau i atal 45 o safleoedd glo brig arfaethedig ledled gwledydd Prydain. Mae gwrthwynebiad cryf yn y cymunedau yma wedi helpu i roi'r hyder i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddod ag echdynnu glo i ben yn llwyr. Erbyn hyn, mae Cymru'n agosach nag erioed at ddod yn wlad ôl-lo. Bydd penderfyniadau yn nhymor nesaf y Senedd yn pennu pa mor gyflym y bydd Cymru'n cofleidio dyfodol di-lo, ac a fydd yn ymdrin ag etifeddiaeth glo mewn ffordd gyfrifol, deg ac uchelgeisiol.

Mae gwaddol glo'n dal yn amlwg ar ein tir ac ym mywydau cymunedau sy'n dal i fyw wrth ochr mwyngloddiau segur a safleoedd sydd heb eu hadfer. Gall Cymru ddewis arwain y byd yn y ffordd mae'n mynd i'r afael â'r etifeddiaeth yma.

Mae cyfle gan y Llywodraeth nesaf i wneud Cymru'n arweinydd byd-eang ym maes trawsnewidiad ôl-lo. I wneud hynny, rydyn ni'n galw ar bob plaid i wneud gweledigaeth o adferiad, arloesi a chyfiawnder yn ganolog drwy fabwysiadu'r argymhellion canlynol yn eu maniffesto etholiadol.



# Deddfu i wahardd cloddio o domenni glo

## Cefndir

Er ein bod yn croesawu gwaharddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar drwyddedau echdynnu glo newydd, diffiniad cul o fwyngloddio fydd yn cael ei atal gan y gwaharddiad yma.[1] Mae eu dehongliad o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 (dehongliad y mae bargyfreithwyr amgylcheddol blaenllaw yn anghytuno ag ef[2]) yn golygu nad yw glo sy'n cael ei adfer o hen domenni glo yn weithgarwch trwyddedadwy ac felly na fyddai'n cael ei gynnwys yn y gwaharddiad sydd ar ddod.

Mae Datganiad Polisi Glo Llywodraeth Cymru (Mawrth 2021) yn sefydlu rhagdybiaeth gref yn erbyn echdynnu glo o'r newydd ond yn gadael eithriadau a allai gael eu hecsbloetio gan ddatblygwyr sy'n gobeithio echdynnu glo drwy honni eu bod yn gwneud gwaith adfer.[3]

## Pam mae Cymru angen hyn

Mae tomenni glo Bedwas, yng Nghaerffili, yn astudiaeth achos fyw o ddatblygwyr sy'n cynnig adfer tomenni glo yn gyfnewid am gael hawliau masnachol i'r glo sydd ynddynt.[4] Gallai'r prosiect yma osod cynsail peryglus i ddatblygwyr sy'n awyddus i gael mynediad at y miliynau o dunelli o lo sydd yn y 2,590 o domenni glo ledled Cymru.[5]

## Gweithredu

Gall y Llywodraeth nesaf ddarparu eglurder gyda gwaharddiad parhaol ar gloddio o domenni glo, gan sicrhau mai diogelwch y cyhoedd sy'n cael ei wasanaethu gan waith adfer, nid elw preifat. Bydd gan y Llywodraeth sawl opsiwn er mwyn cyflawni hyn:

1. **Ymgysylltu â San Steffan**. Mae Gweinidog Ynni'r Deyrnas Unedig wedi datgan bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dilyn arweiniad Llywodraeth Cymru ar faterion datganoledig sy'n ymwneud â thomenni glo.[6] Felly, petai Llywodraeth Cymru yn pwyso ar San Steffan i gynnwys echdynnu o domenni glo yn y gwaharddiad ar drwyddedau glo sydd ar ddod, byddai hynny'n ddylanwadol iawn.
2. **Deddfwriaeth yn y Senedd**. Os na fydd San Steffan yn gweithredu, gallai Llywodraeth Cymru ddeddfu'n uniongyrchol, gan ddileu amwysedd Deddf Diwydiant Glo 1994 y Deyrnas Unedig.[7]
3. **Adolygu polisi cynllunio**. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys rhagdybiaeth yn erbyn echdynnu glo, ond mae hefyd yn gadael rhai eithriadau y gallai datblygwyr eu hecsbloetio. Gellid ei ddiwygio i roi eglurder bod echdynnu glo wedi'i wahardd at unrhyw ddibenion heblaw dibenion cwbl ddamweiniol. Mae diwygio Polisi Cynllunio Cymru yn llwybr y dylid ei gymryd ochr yn ochr â gwaharddiadau deddfwriaethol yn San Steffan neu yn y Senedd, a dyma'r ffordd hawsaf o sicrhau gwaharddiad ar gloddio o domenni glo.



*Tomenni glo Bedwas, Caerffili*

# Sicrhau gwelliant o ran diogelwch a chynefinoedd mewn safleoedd glo brig sydd heb eu hadfer yn ddigonol

## Cefndir

TMae miloedd o hectarau o dir de Cymru wedi cael eu hagor ar gyfer cloddio glo brig ac wedi'u gadael mewn cyflwr heb ei adfer yn ddigonol, a rhai mewn cyflwr peryglus hyd yn oed.[8] Mae'r safleoedd diffaith yma'n bradychu'r addewidion a wnaed i gymunedau cyfagos, a gafodd sicrwydd y byddent yn y pen draw yn mwynhau amgylchedd lleol gwell, gwelliant yr oedd blynyddoedd o fwyngloddio aflonyddus i fod i dalu amdano. Dros y degawd diwethaf yn unig, mae pedwar safle glo brig mawr yng Nghastell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu gadael mewn cyflwr sydd y tu hwnt i adnabyddiaeth.[9] Yn hen lofeydd Pwll y Dwyrain a Margam, cafodd y gwagleoedd eu gadael i orlifo yn lle cael eu llenwi'n ôl. Roedd hyn yn torri costau ar ôl i'r cwmni mwyngloddio gadw dros 80% o'r gronfa adfer.[10]

## Pam mae Cymru angen hyn

Mae safle glo brig Ffos-y-frân ym Merthyr Tudful, sy'n ymestyn dros 400 hectar, mewn perygl o wynebu'r un dynged o beidio cael ei adfer yn ddigonol. Ar ôl dros 16 mlynedd o fwyngloddio, mae'r datblygwr yn gwrthod rhyddhau'r gronfa o £91.2 miliwn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith er mwyn cyflawni ei rwymedigaeth adfer gytundebol.[11] Gan gopïo'r arferion ym Mhwll y Dwyrain a Margam, mae'r cwmni mwyngloddio yn gobeithio chwalu gobeithion y bydd yn cael ei orfodi i gyflawni ei rwymedigaeth adfer.

Dylai pob plaid warantu na fydd yr anghyfiawnder yma'n cael ei ganiatáu gan y byddai'n gwneud hwyl ar ben yr egwyddor "mai'r llygrwr sy'n talu", egwyddor sydd ar fin cael ei hymgorffori ym Mil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth).[12]

## Gweithredu

Dylai archwiliad o safleoedd glo brig sydd heb eu hadfer yn ddigonol fod yn gam cyntaf ar lwybr tuag at gyflawni gwaith adfer sy'n rhoi lle canolog i ddisgwyliadau cymunedol a gwella bioamrywiaeth ar bob safle. Dylai hyn fod yn sail i amcanion y gweithgor Gwaddol Mwyngloddio newydd sydd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.[13] Er mwyn cyflawni'r amcanion yma, rhaid i'r gweithgor newydd gael ei ariannu a'i gefnogi gan Lywodraeth nesaf Cymru. Er mwyn iddo fod yn addas i'r diben, mae'n hanfodol bod y gweithgor yn cynnwys, fel rhanddeiliaid allweddol, y trigolion lleol y mae'r safleoedd yma wedi effeithio fwyaf arnynt yn ogystal â'r sefydliadau sydd wedi ymchwilio ac wedi eiriol ar eu rhan.



*Nant Helen, pedwerydd safle glo brig Celtic Energy Cyf i wynebu toriadau enfawr i waith adfer*



# Sefydlu cronfa ar gyfer rhwydweithiau gwresogi dŵr mwynglawdd i ddarparu cartrefi cynnes glân a fforddiadwy

## Cefndir

Gwresogi cartrefi ac adeiladau masnachol sy'n gyfrifol am ryw hanner y defnydd o ynni yng Nghymru.[14] Amcangyfrifir bod 45% o gartrefi Cymru mewn perygl o brofi tlodi tanwydd.[15] Mae tua hanner y boblogaeth yn byw mewn cyn-ardaloedd mwyngloddio, ac o ganlyniad mae galw mawr am wres yng nghymunedau'r cyn-feysydd glo.[16] Mae'r cymunedau yma wedi'u lleoli'n agos at fwyngloddiau dwfn segur, sydd bellach yn llawn dŵr cynnes geothermol. Gellir defnyddio'r dŵr yma fel ffynhonnell o wres diogel, carbon isel, y gellir ei ddosbarthu drwy rwydweithiau gwres. Mae eisoes wedi'i brofi yn Gateshead, lle mae'r rhwydwaith gwres sy'n cael ei weithredu gan y cyngor yn cyflenwi gwres fforddiadwy, carbon isel a diogel drwy dros 5km o bibellau i fusnesau, cartrefi ac adeiladau cyhoeddus.[17]

## Pam mae Cymru angen hyn

Y rhwystr mwyaf sy'n atal awdurdodau lleol rhag datblygu'r potensial gwres sydd o dan ein traed yw'r gost a'r risg o dyllu i mewn i weithfeydd mwyngloddio hanesyddol, a all gostio cannoedd o filoedd o bunnoedd am bob twll turio, heb sicrwydd o gyrraedd y gweithfeydd mwyngloddio sydd hyd at ddau gan medr islaw. I lawer o gynghorau, mae'n amhosib cyfiawnhau'r lefel yma o risg ariannol tra bod cyllidebau o dan gymaint o bwysau.

## Gweithredu

Cyn Brexit, gallai awdurdodau lleol wneud cais am gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi'r gwaith cynnar yma.[18] Heb gronfa bwrpasol yng Nghymru i ddad-risgio gwariant sylweddol ar gyfer prosiectau, byddan nhw'n dod i stop cyn cychwyn, gan adael cymunedau wedi'u cloi allan o arloesi a allai ostwng biliau, lleihau allyriadau, a chefnogi swyddi lleol medrus.

Ail rwystr yw'r diffyg capasiti arbenigol mewn awdurdodau lleol i ddatblygu prosiectau ynni. Ar gyfer rhwydweithiau gwresogi dŵr mwynglawdd, mae angen arbenigedd technegol a masnachol sydd y tu hwnt i'r hyn sydd gan y rhan fwyaf o gynghorau yn fewnol. Drwy greu cronfa genedlaethol, ynghyd â chapasiti datblygu rhanbarthol, gallai Llywodraeth nesaf Cymru ddod ag arbenigedd yn nes at gynghorau, gan eu galluogi i symud o'r uchelgais i gyflawni.

# Cefnogi diwydiant Cymru i ddod yn un o wledydd cynta'r byd i allu brolio am sectorau dur a sment sy'n rhydd o danwydd ffosil

## Cefndir

Ym mis Mawrth 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i atal mwyngloddio o'r newydd, gan ddod yn un o'r gwledydd cyntaf i wneud hynny. Drwy gymryd y cam yma, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod, yn yr economi fyd-eang, bod glo sy'n cael ei gloddio yn unrhyw le yn cynyddu faint o lo sydd ar gael ac yn cael ei ddefnyddio ym mhobman.

Er bod mewnforio glo i wledydd Prydain yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn, mae llawer iawn o lo sy'n cael ei fewnforio yn cael ei losgi mewn gweithfeydd dur (594,000 tunnell)[19] ac mewn gweithfeydd sment (395,000 tunnell)[20] ledled Prydain. Gyda chau pwerdy Ratcliffe, a'r pontio ar gyfer gwaith dur Port Talbot, mae disgwyl cyn bo hir mai'r sector sment fydd y defnyddiwr glo mwyaf.

## Pam mae Cymru angen hyn

Wrth i Gymru symud tuag at wahardd cloddio glo domestig, mae perygl i ddibyniaeth barhaus ar lo mewn sectorau 'anodd eu lleihau' fel sment, olygu mai'r cyfan fydd yn digwydd yw bod diwydiannau o'r fath yn cael glo o dramor yn lle cael glo yn fwy lleol. Yn 2024, mewnforiodd gwledydd Prydain lo o Golombia, yr Undeb Ewropeaidd, De Affrica, a Feneswela (yn nhrefn cyfaint).[21] Yng Ngholombia, mae mwyngloddio wedi achosi dadleoli torfol, dargyfeirio ffynonellau dŵr hanfodol, ac mae cysylltiadau wedi'u gwneud rhwng mwyngloddio ac ymdrechion i fradlofruddio rhai o arweinwyr cymunedol y Wayúu yn sgil eu gwrthwynebiad i fwyngloddio.[22]

Ynghyd â'r ffwrnais arc drydan a fydd yn cael ei gosod ym Mhort Talbot, byddai sector sment carbon isel hefyd yn paratoi'r ffordd ar gyfer diwydiant trwm sy'n barod i gyflenwi economi ddomestig sero net. Byddai'r symudiad yma'n agor y farchnad allforio i ddiwydiant trwm Cymru allu manteisio ar y galw disgwyliedig am sment a dur carbon isel yn sector adeiladu'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r sector yn paratoi ar gyfer gwaith adrodd carbon cylch oes gorfodol yr Undeb Ewropeaidd a gofynion cynyddol wyrdd ar gyfer adeiladau mawr newydd o 2028 ymlaen ac ar gyfer pob adeilad newydd o 2030 ymlaen.[23]

## Gweithredu

Mae'n hanfodol felly bod strategaeth ddiwydiannol y Llywodraeth nesaf yn cefnogi ac yn annog disodli'r holl lo sy'n cael ei losgi yn nau waith sment Cymru, a hynny'n gyflym, gan ddefnyddio prosesau a thechnolegau sydd eisoes wedi'u profi ar raddfa fawr.[24] Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio tanwyddau amgen yn lle glo, a defnyddio cynnyrch smentiol amgen yn lle'r elfen clincer mewn sment, sy'n cael ei chreu drwy losgi glo.[25]



# Atal allyriadau methan o fwyngloddiau segur

## Cefndir

Methan sy'n dal i ollwng o wythiennau glo ymhell ar ôl i'r mwyngloddio ddod i ben yw methan mwyngloddiau segur. Mae methan yn nwy tŷ gwydr hynod bwerus, dros 80 gwaith yn fwy pwerus na $CO_2$ dros gyfnod o ugain mlynedd, gan wneud gostyngiadau cyflym yn hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd hinsawdd. Yn yr Undeb Ewropeaidd, roedd y Rheoliad Methan a fabwysiadwyd yn 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i wledydd fesur, lliniaru ac atal methan mwyngloddiau segur erbyn 2030.[26] Mae'r ymdrechion yma'n adlewyrchu cydnabyddiaeth gynyddol bod gollyngiadau methan heb eu rheoli o fwyngloddiau segur yn risg hinsawdd fawr sy'n aml yn cael ei hanwybyddu.

## Pam mae Cymru angen hyn


Mae ymchwil a gomisiynwyd gan y Rhwydwaith Gweithredu Glo yn dangos bod mwyngloddiau Cymru'n gyfrifol am 49% o fethan mwyngloddiau segur gwledydd Prydain (yn 2023). Mae astudiaethau ledled Prydain yn amcangyfrif allyriadau gan ddefnyddio modelau yn hytrach na mesuriadau uniongyrchol, gan ddibynnu ar dybiaethau ynghylch sut mae gollyngiadau methan yn lleihau dros amser ar ôl cau safleoedd. Mae'r modelau yma'n gallu bod yn anghywir iawn; yn wir, mae awgrymiadau bod allyriadau gwirioneddol ddwywaith cymaint â'r amcangyfrifon disgwyliedig.[27] O ganlyniad, nid yw Cymru'n gwybod faint o fethan sy'n gollwng mewn gwirionedd o'i rhwydwaith helaeth o fwyngloddiau segur, sy'n gadael bwlch mawr yn strategaeth hinsawdd Cymru.

## Gweithredu

Gallai dull yr Undeb Ewropeaidd fod yn sail i waith rheoleiddio Cymru:

1. **Rhestr**: Cofrestr gyhoeddus lawn o fwyngloddiau segur, gan gynnwys eu statws (wedi'u gorlifo, wedi'u hawyru, wedi'u selio) o fewn blwyddyn.
2. **Mesur uniongyrchol**: Monitro methan ar y safle yn orfodol o fewn dwy flynedd.
3. **Gwaith cynllunio ar gyfer lliniaru**: Datblygu cynlluniau penodol i'r safle i ddal, ffaglu neu atal allyriadau methan o fewn tair blynedd.
4. **Atal**: Gwaharddiad ar awyru a ffaglu, gan sicrhau bod methan naill ai'n cael ei ddal i'w ddefnyddio neu'n cael ei leihau'n llwyr o fewn pum mlynedd.

Byddai'r llwybr yma'n cyd-fynd â safonau rhyngwladol sy'n dod i'r amlwg.



*Mae 10 gwaith sment yn y DU, ac mae dau ohonyn nhw yng Nghymru*

# Cyfeirnodau


1 www.gov.uk/government/news/new-coal-mining-licences-will-be-banned
2 www.coalaction.org.uk/2025/08/18/barristers-tackle-tip-law-and-licensing
3 www.gov.wales/coal-policy-statement-html#60650
4 www.coalaction.org.uk/bedwas-coal-tip
5 www.gov.wales/coal-tip-safety
6 www.coalaction.org.uk/2025/11/06/westminster-hall-debate-coal-tip-safety-the-coal-licence-ban
7 https://www.coalaction.org.uk/2025/08/18/barristers-tackle-tip-law-and-licensing
8 https://senedd.wales/media/uxyfozln/cr-ld16624-e.pdf
9 www.coalaction.org.uk/2022/12/13/coal-mine-restoration
10 www.coalaction.org.uk/wp-content/uploads/2022/11/East-Pit.-Brief.-DIGITAL.pdf
11 www.walesonline.co.uk/news/wales-news/campaigners-say-company-behind-old-33215690
12 www.gov.wales/introduction-environment-principles-governance-and-biodiversity-targets-wales-bill
13 https://record.senedd.wales/Plenary/15755#A104741:~:text=Diolch%2C%20Sioned.%20Welsh,mining%20legacy%20sites.
14 www.regen.co.uk/insights/monitoring-energy-use-in-wales
15 www.gov.wales/fuel-poverty-modelled-estimates-wales-october-2024-html
16 www.gov.wales/mine-water-heat-opportunity-maps-wales-background-and-guidance-html
17 www.gatesheadenergycompany.co.uk
18 www.gov.uk/government/publications/european-regional-development-fund-state-aid
19 www.gov.uk/government/statistics/solid-fuels-and-derived-gases-chapter-2-digest-of-united-kingdom-energy-statistics-dukes
20 www.gov.uk/government/statistics/solid-fuels-and-derived-gases-chapter-2-digest-of-united-kingdom-energy-statistics-dukes
21 www.gov.uk/government/statistics/solid-fuels-and-derived-gases-chapter-2-digest-of-united-kingdom-energy-statistics-dukes
22 www.coalaction.org.uk/2025/11/21/coal-imports-origin
23 https://build-up.ec.europa.eu/en/news-and-events/news/eu-sets-new-rules-measure-footprint-buildings
24 www.coalaction.org.uk/2025/10/29/decoaling-cement-works
25 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a82a345ed915d74e3402cce/fly-ash-blast-furnace-slag-cement-manufacturing.pdf
26 https://ember-energy.org/latest-insights/time-for-europe-to-take-stock-of-its-abandoned-coal-mines
27 https://ember-energy.org/app/uploads/2023/11/In-The-Dark_-underreporting-of-coal-mine-methane-is-a-major-climate-risk.pdf


COAL ACTION NETWORK

Y Rhwydwaith Gweithredu Glo yw'r sefydliad mwyaf blaenllaw sy'n eiriol dros roi diwedd ar ddefnyddio ac echdynnu glo yng ngwledydd Prydain a thramor. Rydyn ni'n ceisio cael cyfiawnder i gymunedau y mae mwyngloddio wedi effeithio arnynt, a phontio teg i ddiwydiannau glân sydd ddim yn echdynnol ar gyfer gweithwyr.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni neu cadwch mewn cysylltiad:


info@coalaction.org.uk

coalaction.org.uk